OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 2953

# Rheoliadau Addysg (Cyfweliad Ailintegreiddio) (Cymru) 2010

**Dyletswydd i wneud cais am gyfweliad ailintegreiddio**

**3.**—(1) Rhaid i bennaeth ysgol a gynhelir wneud cais i riant(**1**) disgybl a waharddwyd dros dro, a'r rhiant hwnnw yn unigolyn sy'n preswylio gyda'r disgybl, fynychu cyfweliad ailintegreiddio yn yr achosion a ragnodir ym mharagraff (2).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), yr achosion a ragnodir yw pan fo disgybl o oed ysgol gorfodol yn cael ei wahardd dros dro ar sail ddisgyblaethol—

(a) o ysgol gynradd am unrhyw gyfnod gosodedig, neu

(b) o ysgol uwchradd am unrhyw gyfnod gosodedig o chwe niwrnod ysgol neu fwy.

(3) Nid yw achos wedi'i ragnodi—

(a) pan fo'r diwrnod cyntaf y mae'r gwaharddiad yn ymwneud ag ef yn dod o fewn deng niwrnod ysgol diwethaf y tymor diwethaf o unrhyw flwyddyn ysgol, neu

(b) pan fo'r pennaeth yn disgwyl i'r disgybl beidio â mynychu'r ysgol o fewn y cyfnod a ddisgrifir yn rheoliad 4(2) am reswm nad yw'n gysylltiedig ag ymddygiad y disgybl.

(**1**) Mae adran 576 o Ddeddf Addysg 1996 yn diffinio '*parent*' at ddibenion y rheoliadau hyn.